**<u>Datganiad Busnes Drafft ar gyfer y 3 wythnos nesaf a Phenderfyniadau'r Dirprwy Lywydd ar gyfer 10 Hydref 2006</u>**

**<u>Penderfyniadau</u>**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 10 Hydref penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6 <u>nad oes</u> angen cyfeirio'r ddeddfwriaeth ganlynol i'w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

The Housing (Empty Dwelling Management Orders) (Prescribed Exceptions and Requirements) (Wales) Order 2006

Housing (Management Orders and Empty Dwelling Management Orders) (Supplemental Provisions) (Wales) Regulations 2006

The Selective Licensing of Houses (Additional Conditions) (Wales) Order 2006

The Selective Licensing of Houses (Specified Exemptions) (Wales) Order 2006

The Introductory Tenancies (Review of Decisions to Extend a Trial Period) (Wales) Regulations 2006

The Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (Commencement) (Wales) Order 2006

The Seed Potatoes (Fees) (Wales) (No 2) Regulations 2006

The Seed Potatoes (Wales) Regulations 2006

**<u>Y Datganiad Busnes Drafft</u>**

**Dydd Mawrth 17 Hydref 2006 a dydd Mercher 18 Hydref 2006**

**Dydd Mawrth 24 Hydref 2006 a dydd Mercher 25 Hydref 2006**

***Toriad Hanner Tymor yr Hydref 30 Hydref – 3 Tachwedd 2006***

**Dydd Mawrth 7 Tachwedd a dydd Mercher 8 Tachwedd 2006**

**Dydd Mawrth 17 Hydref 2006**

- **Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (1 funud)**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i drafod o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

Ø **Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2006**

Mae Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd 2000 (Rheoliadau 2000), yn gweithredu dull integredig o reoleiddio gweithgareddau diwydiannol, a hynny er mwyn diogelu'r amgylchedd. Diben y Rheoliadau diwygio arfaethedig hyn yw diweddaru'r system a gwneud newidiadau technegol er mwyn sicrhau bod rheoleiddwyr a gweithredwyr yn gwbl glir ynghylch eu dyletswyddau i ddiogelu'r amgylchedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnig pedwar diwygiad arfaethedig:

- gweithredu Rheolaethau Cam II Adfer Anwedd Petrol (a elwir yn PVR II);
- cynnydd yn y cosbau am dramgwyddo yn erbyn Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd 2000, yn unol â'r cosbau yn adran 105 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005;
- darparu, yn yr achosion hynny lle bydd yn rhaid rhoi'r gorau i ddefnyddio peiriant sychlanhau sy'n derbyn arian o fis Hydref 2007 ymlaen am nad oes modd cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Allyriadau Toddyddion, na fydd yn ofynnol gwneud cais yn y cyfamser am drwydded Atal a Rheoli Llygredd; a
- mân ddiwygiad technegol sy'n ymwneud â llosgi nwyon tirlenwi sy'n cynnwys halogenau.

Ø **Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2006**

Mae'r Gorchymyn hwn yn disodli Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2004, a hynny er mwyn i Dribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru) fedru gweithredu hyd eithaf ei allu wrth benderfynu ar geisiadau i

olynu mewn tenantiaeth. Mae'r Gorchymyn yn pennu unedau cynhyrchu (gwerth cyfartalog pob uned ffermio, megis mamog neu bob hectar o haidd) er mwyn asesu cynhwysedd cynhyrchu tir amaethyddol yng Nghymru, ac mewn atodlenni ar wahân yn y Gorchymyn, mae'n pennu'r swm sydd i'w ystyried yn incwm blynyddol net o bob uned o'r fath ar gyfer y blynyddoedd 12 Medi 2004 tan 11 Medi 2005 a 12 Medi 2005 tan 11 Medi 2006, gan gynnwys y dyddiadau hynny.

Ø **Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Dros Dro ac Arbedion) (Cymru) 2006**
Bydd y Gorchymyn Cychwyn hwn yn gweithredu darpariaethau yn Neddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005 sy'n ymwneud ag ystod o fesurau mewn perthynas â cherbydau gadawedig, sbwriel, graffiti ac achosion o niwsans statudol (ymhlith pethau eraill).

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (Arolygu) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ehangu cylch gwaith y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i gynnwys yr holl hyfforddiant ym maes gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol sy'n cael ei ddarparu gan sefydliadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Byddai'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod yr holl hyfforddiant ym maes gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol yn agored i gael ei arolygu. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru yn un o'r partneriaid allweddol sy'n darparu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru. Bydd y Rheoliadau'n sicrhau bod yr hyfforddiant a gynigir i staff allweddol y Gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei asesu'n allanol.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988 er mwyn ystyried y newidiadau i'r cymorth ariannol sy'n cael ei ddarparu i fyfyrwyr. Maent yn darparu bod grantiau cynnal a chadw (sy'n rhan o Grant Dysgu'r Cynulliad) sy'n fwy na £1,200, a'r grantiau cynnal a chadw cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, i'r graddau y maent yn fwy na'r ffigurau penodedig, yn cael eu diystyru wrth gyfrifo'r hawl i gostau teithio a pheidio â thalu o dan Reoliadau 1988. At hynny, ystyrir bod unrhyw incwm grant yn cael ei ddosrannu dros gyfnod o 52 o wythnosau, yn hytrach na thros y cyfnod astudio.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Diben y Rheoliadau hyn yw diwygio Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996. Yn unol â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud yn rheolaidd, mae angen i'r Cynulliad ddiwygio'r Rheoliadau sy'n ymdrin â'r prawf adnoddau ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a hynny er mwyn ystyried y ffaith fod lwfansau a phremiymau yn cael eu huwchraddio ac er mwyn ystyried unrhyw newidiadau perthnasol i'r Rheoliadau Budd-dâl Tai yn ystod y flwyddyn. Bydd y Rheoliadau hyn yn pennu'r lwfansau a'r premiymau sy'n cael eu defnyddio yn y prawf adnoddau ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau hefyd adlewyrchu'r ffaith fod Deddf Partneriaeth Sifil 2004 wedi'i chyflwyno.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno'r diwygiadau blynyddol i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996. Yn unol â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud bob blwyddyn, mae angen i'r Cynulliad ddiwygio'r Rheoliadau sy'n ymdrin â'r prawf adnoddau ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a hynny er mwyn ystyried y ffaith fod lwfansau a phremiymau yn cael eu huwchraddio ac er mwyn ystyried unrhyw newidiadau perthnasol i'r Rheoliadau Budd-dâl Tai yn ystod y flwyddyn. Bydd y Rheoliadau hyn yn cyflwyno ffurflen ragnodedig ddiwygiedig i'w defnyddio wrth gynnal y prawf adnoddau ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a bydd y ffurflen yn cael ei diwygio hefyd i adlewyrchu'r ffaith fod Deddf Partneriaeth Sifil 2004 wedi'i chyflwyno.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (45 munud)**

- **Dadl am Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed (60 munud)**

## Dydd Mercher 18 Hydref 2006

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**

- **Cwestiynau i Bwyllgor y T• (5 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Ataliol) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv) (15 munud)**

Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli'r Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) (No. 2) Regulations 2005 a'r Avian Influenza (Preventive Measures in Zoos) (Wales) (No. 2) Regulations 2005, ac yn diweddaru ac yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Byddant yn parhau i weithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2005/734 /EC, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2006/574/EC, o dan y gyfraith ddomestig. Maent yn pennu mesurau bioddiogelwch er mwyn lleihau'r risg bod ffliw adar pathogenig iawn yn cael ei throsgwlyddo o adar gwyllt i ddofednod ac i adar caeth eraill.

Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2006/474/EC, sy'n diddymu Penderfyniad 2005/744/EC. Mae'r Penderfyniad hwn yn ymdrin â mesurau i atal y ffliw adar rhag lledu i adar mewn s•au: mae ynddynt, yn benodol, fesurau i frechu adar sydd mewn s•au. Maent hefyd yn helpu i weithredu darpariaethau sy'n eu gwneud yn ofynnol i safleoedd lle cedwir dofednod gael eu nodi o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC sy'n cynnwys mesurau i reoli'r ffliw adar ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EC.

At hynny, mae rheoliad 6 yn gwahardd crynhoi adar oni bai fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi trwyddedu crynoadau o'r fath ar ôl cynnal asesiad risg. O dan reoliad 7, mae'n ofynnol i bobl sy'n cadw 50 neu fwy o ddofednod ar unrhyw un safle, pa un a yw'r safle hwnnw'n un masnachol ai peidio, roi manylion y dofednod hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i gofrestru eu safleoedd ar gofrestr dofednod Prydain. Mae rheoliadau 8 i 13 yn ymwneud â brechu adar sydd mewn s•au.

**Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro drwy Loeren) (Cymru) 2006**

  Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2244/2003 sy'n pennu darpariaethau manwl ynghylch Systemau Monitro Llongau ar sail Lloeren. Bydd yn helpu i orfodi'r mesurau ar gyfer gwarchod pysgodfeydd a defnyddio'u hadnoddau mewn ffordd gynaliadwy, a hynny drwy ehangu'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â monitro llongau pysgota a llongau llai drwy loeren, a thrwy ei gwneud yn ofynnol hefyd i gynnwys cwrs a chyflymder y llongau hynny ym mhob adroddiad ac i gasglu a throsglwyddo

data mewn ffyrdd mwy diogel a chywir.

Bydd y Gorchymyn hwn hefyd yn dirymu Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000 a Rheoliadau Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000 2002.

- **Cynnig i gymeradwyo Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 25.2**

Mae'r Cynllun hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu grantiau i bob llong dros bymtheg metr o hyd sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru, ac y gosodwyd ar eu byrddau yng Nghymru ddyfeisiau olrhain drwy loeren sydd wedi'u cymeradwyo gan y llywodraeth.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Diwygio) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi Cyfarwyddeb 2002/2/EC Senedd a Chyngor Ewrop dyddiedig 28 Ionawr 2003, a oedd yn diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 79/373/EEC ar gylchredeg bwydydd anifeiliaid cyfansawdd, ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 91/357/EEC. Byddant yn ailgyflwyno yng Nghymru un o fesurau'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fwydydd anifeiliaid cyfansawdd gael eu labelu â rhestr o gynhwysion, yn ôl y ganran ohonynt a gynhwyswyd, a hynny mewn trefn ddisgynnol a chyda goddefiant heb fod yn fwy na +/- 15% ar gyfer pob datganiad. Yn wreiddiol, roedd y Comisiwn wedi cynnig y mesur hwn yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2002/2/EC, sef un o nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth a fyddai, yn ôl pob tebyg, yn gwneud bwydydd yn fwy diogel.

- **Cynnig I gymeradwyo Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2006(15 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer, ac mewn perthynas â, throsglwyddo i'r Cynulliad ystod o swyddogaethau Gweinidogion y Goron yn y DU mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- adrannau 1 a 3 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920;

- adran 156 o Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd 1990 i’r graddau y mae’n gymwys i Ran 2 o’r Ddeddf honno; ac

- adrannau  47(2)(g), 53(2)(c), 55(4) and 66A(6) o Ddeddf y Diwydiant

D•r 1991.

- **Cynnig I gymeradwyo The Closures Guidance (Railway Services in England and Wales) Order 2006 o dan Reol Sefydlog 26 (15 munud)**

This Order will bring into force closures guidance published jointly by the Secretary of State for Transport and the National Assembly for Wales in fulfilment of their duties under section 42(3) of the Railways Act 2005. The closures guidance sets out the criteria against, which proposals to discontinue passenger railway services, networks or facilities will be considered. A single set of closures guidance has been agreed for all proposed closures.

- **Debate on Sport (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

<u>**Dydd Mawrth 24 Hydref 2006**</u>

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan Brif Weinidog Cymru : Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau: Adolygiad o Bolisi Gwyddoniaeth (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

  Ø **Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2006**
  Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2004 er mwyn dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Awdurdod Rheolaethu Cymwys ar gyfer Gofynion Rheoli Statudol 9, 11 a 12 a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion

Gwledig yn Awdurdod Rheolaethu Cymwys ar gyfer Gofynion Rheoli Statudol 10, 13-15. Diwygiadau gweinyddol a fydd yn atgyfnerthu'r gofynion cyfredol yw'r holl ddiwygiadau eraill.

Ø **Rheoliadau Cyflenwi Gwybodaeth ar gyfer Cymorth i Fyfyrwyr i Gyrff Llywodraethu (Cymru) 2006**

Mae Adran 45 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn gwneud darpariaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Rheoliadau a fydd yn galluogi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i rannu gwybodaeth am gymorth i fyfyrwyr gyda chorff llywodraethu Sefydliad Addysg Uwch ac yn galluogi'r Awdurdodau Lleol i rannu data â Sefydliadau Addysg Uwch, ar yr amod bod caniatâd wedi'i roi i'r wybodaeth honno gael ei rhannu. Bydd y Rheoliadau yn galluogi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i rannu gwybodaeth a ddarperir gan fyfyrwyr a'u noddwyr ar y ffurflen gais am gymorth, yn ogystal â chanlyniad yr asesiad at ddibenion gweinyddu bwrsariaethau. Mae datganiadau diogelu data yn adran 13 o ffurflen PN1, sef y ffurflen gais am gymorth i fyfyrwyr, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael caniatâd diamwys yr ymgeiswyr a phobl eraill sy'n darparu gwybodaeth bersonol.

Ø **Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dirymu ac yn disodli Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) 2006, yn gweithredu Erthygl 13d o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC (y Gyfarwyddeb Iechyd Planhigion). Maent yn cyflwyno cyfraddau gostyngol ar gyfer cynnal gwiriadau ar 16 yn fwy o blanhigion, cynhyrchion planhigion a phethau eraill sy'n cael eu mewnforio o drydydd gwledydd nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rheoliadau 2006. Maent yn darparu hefyd fod ffi i'w godi pan fo llwythi o blanhigion yn cael eu mewnforio, p'un a gynhelir arolygiad ar iechyd y planhigion ai peidio.

Ø **Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Dirymu) (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi mesurau'r Gymuned Ewropeaidd ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2006/504/EC sy'n cysoni'r amodau arbennig sy'n ymwneud â mewnforio bwydydd penodol, yn benodol pysgnau, cnau bwytadwy a ffigys sych a chynhyrchion a wnaed ohonynt i'r Undeb Ewropeaidd o drydydd gwledydd penodol. Maent hefyd yn dirymu Rheoliadau rheolaeth frys a wnaed yn y gorffennol mewn perthynas â'r bwydydd penodedig.

Bydd y Rheoliadau yn dirymu ac yn disodli rheoliadau rheolaeth frys a

wnaed yn y gorffennol ac sydd, ar hyn o bryd, yn gweithredu Penderfyniadau'r Comisiwn 2000/49/EC, 2002/79/EC, 2002/80/EC, 2003/493/EC a 2005/85/EC.

- **Dadl am y Gyllideb ddrafft (120 munud)**

**Dydd Mercher 25 Hydref 2006**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i Brif Weinidog Cymru (2004 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006**

  Bydd y Gorchymyn hwn yn cychwyn y darpariaethau a ganlyn yn Neddf Rheoli Traffig Ffyrdd 2004 yng Nghymru:

  Rhan 1 Adrannau 5(4), 5(5) and 10 – Swyddogion Traffig, tramgwyddau
  Rhan 2 – Rheoli Rhwydweithiau gan Awdurdodau Traffig Lleol
  Rhan 6 – Gorfodi Cosbau Sifil am Dramgwyddau Traffig
  Rhan 7 - Adrannau 94, 95, 96 a 98 – Amrywiol a Chyffredinol

  Diben y Ddeddf yw lleihau tagfeydd, gwella llif y traffig a gwella amodau ar gyfer pawb sy'n defnyddio ffyrdd yr awdurdodau lleol a chefnffyrdd yng Nghymru ac yn Lloegr, a hynny drwy reoli'r rhwydweithiau ffyrdd cenedlaethol a lleol.

**Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Eithriadau a Gofynion Rhagnodedig) (Cymru) 2006**

Mae'r Offeryn hwn yn pennu'r amgylchiadau pryd y caiff awdurdod tai lleol ei atal rhan gwneud gorchymyn interim rheoli anheddau gwag mewn perthynas ag annedd sydd wedi'i adael heb ei feddiannu gan ei berchennog yn unol â'r disgrifiad yn Rhan 4 o Ddeddf Tai 2004 (y Ddeddf). Mae hefyd yn pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r awdurdod tai lleol ei darparu i'r tribiwnlys sy'n ystyried y cais**.**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tai (Gorchmynion Rheoli a Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau atodol lle y mae'r awdurdod tai lleol i'w drin fel lesddeiliad o dan les adeiladau sy'n destun gorchymyn rheoli interim neu orchymyn rheoli terfynol o dan Bennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Tai 2004 (y Ddeddf) neu sy'n destun gorchymyn interim rheoli anheddau gwag neu orchymyn terfynol rheoli anheddau gwag a wnaed o dan Bennod 2 o Ran 4 o'r Ddeddf.

**Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Amodau Ychwanegol) (Cymru) 2006**

Mae Adran 80(1) o Ddeddf Tai 2004 (y Ddeddf) (Dynodi ardaloedd trwyddedu dethol) yn caniatáu i awdurdod tai lleol ddynodi naill ai ardal ei ddosbarth, neu ardal yn ei ddosbarth, yn ardal trwyddedu dethol os bodlonir gofynion is-adrannau (2) a (9).

- Mae is-adran (2) yn datgan bod yn rhaid i'r awdurdod ystyried bod y set gyntaf neu'r ail set o amodau cyffredinol y cyfeirir atynt yn is-adran (3) os yw'r ardal yn ardal lle mae galw isel am dai neu os yw'n debygol o ddod yn ardal o'r fath neu (6)lle mae gan yr ardal broblem sylweddol a chyson sy'n cael ei hachosi gan ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu unrhyw amodau a bennir mewn gorchymyn o dan is-adran (7) yn set ychwanegol o amodau, yn cael eu bodloni mewn perthynas â'r ardal.

- Mae is-adran (9) yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i'r awdurdod tai ei wneud cyn gwneud dynodiad h.y. mae'n rhaid iddo gymryd camau rhesymol i ymgynghori â phersonau y mae'r dynodiad yn debygol o

effeithio arnynt, ac ystyried unrhyw sylwadau sy'n cael eu gwneud yn unol â'r ymgynghoriad.

- Mae is-adran (7) yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gan mai ef yw'r awdurdod cenedlaethol priodol) bennu amodau mewn Gorchymyn a fydd yn set ychwanegol o amodau at ddibenion is-adran (2).

Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn drafft yn pennu amodau ychwanegol y mae'n rhaid i'r naill neu'r llall ohonynt gael eu bodloni cyn i awdurdod tai lleol ddynodi ardal yn un lle mae trwyddedu dethol.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Esemptiadau Penodedig) (Cymru) 2006**

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu'r disgrifiadau o denantiaethau neu drwyddedau tai neu anheddau sydd mewn tai sy'n denantiaethau neu'n drwyddedau esempt at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf Tai 2004 (y Ddeddf). Effaith yr esemptiad yw nad yw t• sy'n destun tenantiaeth neu drwydded o fath a ddisgrifir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn yn destun y gofyniad trwyddedu a ddisgrifir yn adran 85 o'r Ddeddf.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**

- **Dadl am Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y T• (30 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2006</u>**

- **Etholiadau i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol (1 funud)**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

Ø **Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) (Rhif 2) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) 2006, a ddaeth i rym ar 3 Mawrth 2006. Maent yn pennu'r ffioedd sy'n daladwy gan y rheini sy'n gwneud cais i datws hadyd gael eu dosbarthu o dan Reoliadau Tatws Hadyd 1991. Maent yn adlewyrchu'r newidiadau i'r derminoleg a ddefnyddir i ddosbarthu tatws hadyd cyn-sylfaenol.

- **Cynnig I gymeradwyo Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006 (15 munud)**
Yr hyn y mae'r Rheoliadau hyn yn ei wneud yn bennaf yw cydgrynhoi Rheoliadau Tatws Hadyd 1991 (sy'n gymwys i Brydain). Mae ynddynt hefyd ddiwygiadau sy'n ganlyniad i wneud hynny. At hynny, byddant yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/56/EC ynghylch marchnata tatws hadyd a Phenderfyniad y Comisiwn 2004/842/EC ynghylch marchnata tatws hadyd, at ddibenion profion a threialon, sy'n perthyn i amrywogaethau lle mae cais wedi'i gyflwyno i'w hychwanegu at y Rhestr Genedlaethol. Bydd y Rheoliadau hefyd yn cyflwyno mân newidiadau i'r trefniadau ar gyfer rhoi tystysgrifau.

**Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) (Diwygio) (Cymru) 2006**
Mae Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991 yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â gwaith stryd, ac fe'i hategir gan Reoliadau a Chodau Ymarfer. O dan adrannau 71 a 104(3) o'r Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd, roedd Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) 1992 yn pennu'r gofynion o ran y manylebau ar gyfer y deunyddiau sydd i'w defnyddio, a'r safonau crefftwaith y mae ymgymerwyr megis cwmnïau d•r, trydan a thelathrebu i gadw atynt wrth adfer strydoedd gan gyfeirio at God Ymarfer a gyhoeddwyd yn 1992. Byddai'r Rheoliadau arfaethedig yn disodli ac yn dirymu (mewn perthynas â Chymru) Reoliadau Gwaith Stryd (Adfer) 1992 ac yn golygu y byddai cydymffurfio â Manyleb newydd mwy diweddar yn ofyniad cyfreithiol.

- **Cynnig i gymeradwyo'r Fanyleb ar gyfer Adfer Agorfeydd mewn Priffyrdd 2il Argraffiad 2006 o dan Reol Sefydlog 29**
Mae'r Fanyleb ddiwygiedig arfaethedig hon yn pennu'r safonau y mae'n rhaid i ymgymerwyr (e.e. cwmnïau d•r) neu eu contractwyr gydymffurfio â hwy wrth adfer y briffordd ar ôl gwneud gwaith cynnal a chadw ar gyfarpar sydd wedi'i

gladdu o dan y ffordd neu wrth osod cyfarpar newydd. Bwriedir i'r Fanyleb sicrhau, er enghraifft, fod y gwaith adfer yn gyfwyneb â gweddill wyneb y ffordd ac nad yw'n dirywio'n gynt na gweddill y ffordd. Mae hefyd yn pennu'r deunyddiau cymeradwy y mae'n rhaid i ymgymerwyr eu defnyddio, er enghraifft, asffalt neu goncrid.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (60 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**

- **Dadl am Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005-2006 (30 munud)**

**<u>Dydd Mercher 8 Tachwedd 2006</u>**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28, ac fel y pennir yn y rhestr o gyfrifoldebau'r Gweinidogion (30 munud)**

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**

- **Dadl am Adroddiad Gwerthuso 1af Cymunedau yn Gyntaf (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**